# Ymagwedd newydd: Partneriaeth Dalgylch Tal-y-bont

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Dŵr Cymru ers 2014 er mwyn gwneud newidiadau i'r dasg o reoli coedwig YGLlC sy'n ffurfio 30% o ddalgylch Cronfa Ddŵr Tal-y-bont. Mae'r dalgylch yn cwmpasu ardal o oddeutu $24km^2$ ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r gronfa ddŵr yn strategol bwysig, ac mae'n cyflenwi tua 300,000 o gwsmeriaid yng Nghymoedd Dwyrain Gwent.

Bu'n rhaid clirio oddeutu 15% o'r goedwig dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd *Phytophthora ramorum*. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i gynnal adolygiad sylfaenol o ddylunio a rheoli coedwigoedd er mwyn cefnogi cynnig darpariaeth ehangach o wasanaethau ecosystem.



Bu un astudiaeth yn ystyried effaith newid strwythur ac amrywiaeth rhywogaethau'r goedwig er mwyn darparu gwasanaethau ecosystemau gan gynnwys: pren, ffibr a thanwydd; bioamrywiaeth; rheoleiddio pla a chlefydau; rheoleiddio erydiad a gwaddodion; rheoleiddio dŵr; hamdden; eco-dwristiaeth; estheteg; a threftadaeth ddiwylliannol. Ystyriwyd tair senario wahanol:

- Cynnal y *status quo* (tua 80% coniffer);
- Ailstrwythuro er mwyn cyrraedd (tua 70%) o goed llydanddail cymysg ac
- Ailstrwythuro er mwyn cyrraedd cymysgedd llydanddail/coniffer 50:50.

Rhoddwyd sgôr ar gyfer pob gwasanaeth ecosystem ar y raddfa berthnasol, ac roedd hyn yn ei dro yn rhoi'r sgôr *Total Ecosystem Delivery* (TED) ar gyfer y goedwig. Y trydydd opsiwn greodd y sgôr uchaf ac mae hwn wedi ei fabwysiadu, ac mae newidiadau coedamaeth ar y gweill. Fel rhan o brawf Gwasanaethau Taliadau am Ecosystem (*PES*), bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn talu am y costau rheoli ychwanegol o weithredu'r gyfundrefn newydd, yn ychwanegol at y costau rheoli sy'n gysylltiedig â chynnal y *status quo* (sef coed conwydd yn bennaf).

Dyma sylwadau Joanne Burford, Rheolwr Dalgylch Dŵr Cymru Welsh Water ar yr astudiaeth:

*"Mae gweithio mewn partneriaeth wedi caniatáu i ni ddarganfod a chyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o weithio gyda natur er mwyn diogelu dŵr yfed. Credwn mai'r dull cyfannol hwn o weithredu, seiliedig ar dystiolaeth yw'r prosiect coedamaeth cyntaf i'w gyflwyno ar raddfa dalgylch yn y DU ".*

Dyma ddywedodd Michael Cresswell, Swyddog Rheoli Tir, Cyfoeth Naturiol Cymru:

*"Mae'n bosib ail-adrodd y bartneriaeth lwyddiannus yn Nhal-y-bont ymhellach ar rannau eraill o'r YGLlC a dylai hyn ddod yn batrwm ar gyfer ardaloedd basn afon eraill yng Nghymru".*

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: